Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penygroes
# Heol Waterloo
# Penygroes
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 7NT

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penygroes

Mae Ysgol Gynradd Penygroes ym mhentref Penygroes, Sir Gaerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae 171 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae tua 27% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dros dreigl tair blynedd, tua 11% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol o 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hynod o gyfeillgar a gofalgar. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o degwch. O oed cynnar, mae eu medrau dysgu annibynnol yn gryfder amlwg.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae'r drefn o gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni safonau da.

Mae lles pob disgybl yn cael lle blaenllaw yn narpariaeth yr ysgol, gyda'r staff yn darparu arweiniad, gofal a chymorth effeithiol ar eu cyfer. Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn a chyfrannu at agweddau pwysig ar waith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, a safonau a lles disgyblion. Mae staff yn ymateb yn dda i anghenion unigolion ac yn darparu gofal ac arweiniad effeithiol iddynt.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson tu mewn a thu allan i’r dosbarthiadau

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio cronfeydd data yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â llwyddiant wrth ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion. Bydd yr astudiaeth achos yn cael ei lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni’n dda ac yn gweithio’n aeddfed iawn yn annibynnol. Maent yn dangos gwir ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae bron pob un sy’n dod o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da yn fuan. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llafar y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn gwrando’n astud, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau’n hyderus iawn. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith gydag oedolion a disgyblion eraill yn wybodus a brwdfrydig, er enghraifft wrth roi cyfarwyddiadau i wneud parti i’r brenin Gwyddno. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfathrebu’n glir yn y ddwy iaith ac yn cynnig atebion, sylwadau a mynegi barn yn hynod aeddfed. Fodd bynnag, ar adegau, lleiafrif o ddisgyblion sy’n defnyddio’r Gymraeg i gymdeithasu amser egwyl ac i siarad â’u ffrindiau yn y gwersi.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu’n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chywir ac yn ymdrechu’n aeddfed i adeiladu geiriau sy’n anghyfarwydd iddynt. Maent yn darllen gyda mynegiant ac ystyr clir ac yn gallu edrych am ffeithiau am y tymhorau a’r planedau yn fedrus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn Gymraeg a Saesneg. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau priodol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i chwilio am wybodaeth am effaith ysmygu ar eu hysgyfaint a rhannau arall o’r corff.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio ansoddeiriau i gyfoethogi eu gwaith yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o dywysog. Maent yn sillafu’n gywir, yn gwneud defnydd da o dreiglo ac yn atalnodi’n bwrpasol, gan amlaf. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfleu gwybodaeth yn eglur at ddibenion gwahanol yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa bwrpasol i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth greu taflen wybodaeth am yr Esgob Wiliam Morgan. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o’r disgyblion yn drefnus a thaclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth symud drwy’r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn datblygu’u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac yn eu defnyddio’n hyderus tra’n gweithio’n annibynnol wrth gwblhau eu heriau. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi syml yn dda. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur ansafonol a safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau, er enghraifft wrth fesur mililitrau yn gywir i greu diod i frenin Cantre’r Gwaelod. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos medrau cadarn o ddulliau cyfrif a chyfrifo ar draws y pedwar rheol. Maent â dealltwriaeth drylwyr o siâp, graddfa, maint a lleoliad, er enghraifft wrth gynllunio pwll newydd i’r ysgol i raddfa ac arwynebedd penodol a

gosod gwrthrychau yn ôl pellter a maint. Maent yn casglu gwybodaeth ac yn cynhyrchu a dehongli graffiau clir a phwrpasol, yn enwedig yn eu gwersi gwyddoniaeth tra'n ymchwilio i dyfiant berw dŵr.

Mae safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd yn hyderus er mwyn atgyfnerthu eu medrau rhifedd a llythrennedd. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn bwrpasol, er enghraifft i greu lluniau cyfrifiadurol ac i ysgrifennu eu newyddion. Maent yn hyderus wrth ddilyn cyfarwyddiadau cyfeirio i reoli tegan electronig yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio offer technoleg yn aeddfed wrth weithio ar eu heriau. Maent yn archwilio gwybodaeth yn effeithiol mewn cyflwyniadau amlgyfrwng i greu animeiddiad llwyddiannus sy'n olrhain hanes creu'r deml apostolaidd cyntaf yng Nghymru. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau codio yn dda. Maent wedi dechrau defnyddio rhaglenni amrywiol i fewnbynnu a dehongli data. Fodd bynnag, nid yw'r medrau hyn wedi cael amser i ymwreiddio a chael effaith ddigon cadarn ar safonau'r disgyblion.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae safonau lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Nodwedd arbennig o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch mae pob disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu arbennig a hynod effeithiol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder, ac yn hyderus iawn bod y staff yn gwrando arnynt. Mae gan y disgyblion i gyd ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ynghyd â chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus.

Mae bron pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, yn gweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at farn eraill drwy wrando ar eu safbwyntiau ac aros eu tro yn amyneddgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd. Mae eu gallu i ddefnyddio'u medrau dysgu annibynnol yn nodweddion rhagorol.

Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn y cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr a gânt i berfformio o flaen cynulleidfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyngherddau ysgol, gwasanaethau amrywiol, ac Eisteddfodau'r Urdd.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn y dosbarthiadau ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol yn ardderchog. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal mawr am y disgyblion iau, sy'n sicrhau eu bod yn tyfu'n ddisgyblion hyderus a hapus. Mae hyn yn cyfrannu at natur gynhwysol ac ethos hynod ofalgar yr ysgol. Mae bron pob un yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'r gymuned ehangach ac maent yn barod iawn i gefnogi'r gymuned leol trwy berfformio yn rheolaidd yng nghartref yr henoed, y capel lleol, a phlannu cennin Pedr o gwmpas y pentref.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio'u barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd naturiol y maent yn arwain eu dysgu eu hunain i gyd-fynd â'u diddordebau. Mae disgyblion pob dosbarth yn cyfrannu'n aeddfed at heriau perthnasol yr hoffent eu dysgu, ynghyd â'r prif drywyddau ymholi yr hoffent ganolbwyntio arnynt. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn cymryd perchnogaeth lawn dros eu dysgu. Mae aelodau'r pwyllgorau niferus fel y cyngor ysgol, y cyngor eco, arweinwyr digidol, y criw Cymraeg a llysgenhadon chwaraeon a hawliau plant yn frwdfrydig iawn ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn dylanwadu'n ardderchog ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi llunio polisi gwrth-fwlio sydd wedi ei arwyddo gyda'u cyd ddisgyblion. Maent wedi cyflwyno mascot 'cyfaill caredig' i oruchwylio a chynnwys plant i chwarae amser egwyl fel nad oes neb yn unig. Mae llysgenhadon hawliau plant yn cynnal sesiynau rheolaidd gyda disgyblion y cyfnod sylfaen i egluro iddynt eu hawliau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfle i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol. Maent yn casglu arian at achosion da yn rheolaidd, ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant i gyfrannu at elusennau fel Achub y Plant, Plant mewn Angen ac apêl teganau Sir Gâr.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol iddynt, gan sicrhau eu bod yn cyflawni'n dda. Mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau dysgu llwyddiannus i ddatblygu medrau'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob un ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn arddangos cymhelliant clir i lwyddo. Mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu medrau llafar.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod heriau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn cyfrannu'n dda at gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n diwallu anghenion disgyblion o bob oed a gallu yn llwyddiannus. Trwy gydweithio effeithiol a gosod arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad o weithgareddau symbylus. Mae staff yn herio'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae mewnbwn amlwg gan ddisgyblion wrth gynllunio themâu'r cwricwlwm sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn llwyddiannus iawn.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o weithgareddau ysgogol y tu mewn a thu allan. Darperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer

eu medrau corfforol. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen hon drwy annog disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn tasgau heriol. Darperir cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm gan sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio a'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion i ddefnyddio cronfeydd data yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm wedi cael cyfle i wreiddio.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn fedrus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae oedolion yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod gwersi ac, o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Fodd bynnag, nid yw strategaethau i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol wedi cael llawn effaith, er enghraifft yn ystod amser egwyl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous ac yn llawn dychymyg. Mae profiadau fel ymweliadau i barc gwledig lleol, castell Dinefwr a Phembre yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u ardal leol yn dda. Mae dysgu am chwedlau traddodiadol a lleol yn cael lle amlwg yn y cynllunio. Ceir enghreifftiau da ar draws yr ysgol o waith am Flodeuwedd, Culwch ac Olwen, Cantre'r Gwaelod, Branwen a Llyn Llech Owain. Fe geir gwaith amrywiol am hanes enwogion Cymru fel Owain Glyndŵr, Santes Dwynwen, Dewi Sant, Barti Ddu a Twm Siôn Cati. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. Mae gofal, cymorth ac arweiniad y staff i sicrhau lles y disgyblion yn eithriadol o effeithiol, ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rhagorol i ffynnu yn eu datblygiad academaidd, cymdeithasol, moesol, emosiynol a chreadigol. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymdrech, lles ac ymddygiad disgyblion. Adlewyrchir hyn yn glir iawn yn y ffordd aeddfed a brwdfrydig mae disgyblion yn ymateb i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd eang iawn i ddisgyblion fod yn rhan weithredol o gynlluniau'r dosbarth ac i leisio'u barn a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae aelodau'r cynghorau a'r llysgenhadon yn frwdfrydig iawn, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn codi arian ac yn rhagweithiol yn y gymuned leol. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu i'w dysgu, er enghraifft wrth benderfynu ar yr heriau yr hoffent eu hastudio fel rhan o'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyfrannu'n ardderchog at frwdfrydedd y disgyblion i weithio'n hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gref ar y safonau da maent yn eu cyflawni.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth lleol a Chymru yn arbennig o dda. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus i'r disgyblion drwy gynnig gwersi ysgogol sy'n plethu hanes lleol a chenedlaethol i'w themâu. Ceir cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned

leol, ac i gymryd rhan mewn cyngherddau ac i gystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau cenedlaethol eraill. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder, a'u balchder yn eu hunain, eu hysgol a'u cymuned leol yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn eithriadol o dda trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus, trwy wersi addysg grefyddol a thrwy heriau dyniaethau y dosbarthiadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r disgyblion fagu arferion ymddygiad da iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach a heini. Mae'r sesiynau ymarfer corff dyddiol a'r clybiau chwaraeon yn cyfrannu'n llwyddiannus at hyn. Mae gweithgareddau amrywiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o les personol yn sicrhau bod bron pob un yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref ac ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym. Mae'r camau gwella yn galluogi'r staff i gynllunio a darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Defnyddir cynorthwywyr dysgu ac athrawon asiantaethau arbenigol yn effeithiol iawn. Mae adroddiadau i rieni yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynnydd eu plant ac yn gosod targedau gwella eglur a pherthnasol.

Er holl ymdrechion yr ysgol, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae canran presenoldeb carfan o ddisgyblion wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol, gan sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar annog y dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae gan bawb ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion.

Nodwedd gadarn yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n effeithiol. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu medrau staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur rhwng yr holl staff. Maent yn cydweithio'n hynod o effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Enghraifft dda o hyn yw'r modd llwyddiannus mae'r ysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau annibynnol y disgyblion a'u gallu i wella eu gwaith eu hunain.

Un o rinweddau da arweinyddiaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad cadarn yn cyfoethogi datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Enghraifft lwyddiannus o'r gweithgareddau hyn yw'r ffordd mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol ag ysgol gyfagos i wella eu safonau a darpariaeth TGCh.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae'r drefn o hunanwerthuso yn ystyried tystiolaeth yn ofalus; er enghraifft, mae craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi yn arwain at adnabyddiaeth dda o gryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Cyfeiria'r cynllun gwella ysgol yn effeithiol at y camau i'w cymryd, y meini prawf llwyddiant cysylltiedig, amseriad a chyfrifoldeb, trefniadau monitro a chyllidebu. Mae'r adroddiadau monitro, sy'n canolbwyntio ar yr addysgu, dysgu a'r ddarpariaeth, yn dangos y ffordd ymlaen yn glir er mwyn gwella ymhellach. Mae hyn wedi arwain, er enghraifft, at wella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Trwy gydweithio â'r staff, a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i wneud penderfyniadau wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn gydwybodol.

Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn ofalus iawn i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n deilwng i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2020